**City and County of Swansea**

# Minutes of the Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Addysg a Sgiliau

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 14 Mawrth 2018 at 4.00 pm**

**Present**: Councillor R V Smith (Cadeirydd) Presided

| Councillor(s) | Councillor(s) | Councillor(s) |
|---|---|---|
| M Durke | L R Jones | M A Langstone |
| S Pritchard | D W W Thomas | |

**Officer(s)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Nick Williams | Prif Swyddog Addysg |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Apologies for Absence**
Councillor(s): S E Crouch, K M Roberts a/ac M Sykes

---

**46 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**47 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyflwyno a Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2018 fel cofnod cywir.

**48 Mewnbwn/barn pobl ifanc.**

Croesawodd y Cadeirydd, y Prif Swyddog Addysg ac aelodau'r Pwyllgor y bobl ifanc ac athrawon o Ysgol Gyfun Cefn Hengoed ac Ysgol Gyfun Gŵyr i'r cyfarfod.

Nododd y Prif Swyddog Addysg ei fod wedi ymweld â'r ddwy ysgol yn ddiweddar gan siarad â chynghorau ysgol yr ysgolion, ac roeddent wedi gwneud cymaint o argraff arno roedd wedi eu gwahodd i'r cyfarfod i amlinellu eu barn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, ymatebodd y bobl ifanc a'r athrawon o'r ddwy ysgol gan amlinellu'r meysydd canlynol yn eu hysgolion:

- Darpariaeth a manteision clybiau ar ôl ysgol ac amser cinio, yn enwedig ar gyfer pynciau megis gwyddoniaeth/cyfrifiadureg etc;
- Mewnbwn athrawon ac ymgynghorwyr gyrfaoedd wrth ddewis pynciau ar gyfer TGAU a Safon Uwch;

- Gwybodaeth dda ar gael er mwyn cysylltu pynciau â chyfleoedd posib ar gyfer swyddi/gyrfa;
- Pwysigrwydd TG a thechnoleg newydd wrth symud ymlaen;
- Ehangu darpariaeth TG e.e. codio;
- Agweddau pobl ifanc at astudiaethau yn y dyfodol, yn enwedig y pynciau STEM;
- Gwreiddio "sgiliau cyflogadwyedd" fel rhan o gwrs Bagloriaeth Cymru
- Angen datblygu ac ehangu cysylltiadau â busnesau lleol, yn enwedig darpariaeth Gymraeg;
- Croesawu datblygu'r defnydd o weminarau trwy Gyrfa Cymru;

Diolchodd y Cadeirydd i'r bobl ifanc a'r athrawon am ddod i'r cyfarfod ac am eu mewnbwn.

Trafododd yr aelodau'r pynciau a'r materion a nodwyd yn ystod eu trafodaeth gyda'r bobl ifanc gan gyfeirio at y meysydd canlynol ar gyfer ymchwiliad pellach:

- Pa ddarpariaeth sydd ar gael i gynnwys disgyblion llai academaidd a datblygu sgiliau a gwybodaeth y disgyblion hynny;
- Cyfranogiad rhieni;
- Materion sy'n ymwneud â darparu cludiant er mwyn i ddisgyblion gyrraedd adref ar ôl clybiau ar ôl ysgol;
- Defnydd posib o'r bartneriaeth sgiliau rhanbarthol er mwyn datblygu cysylltiadau â busnesau Cymraeg.

**49 Mark Jones - Pennaeth Coleg Abertawe Gwyr.**

Rhoddodd Mark Jones gyflwyniad trosolwg i'r aelodau gan amlinellu'r meysydd canlynol ar gyfer Coleg Gŵyr Abertawe:

- Cyd-destun a chefndir darpariaeth cyrsiau coleg presennol;
- 1500+ o fyfyrwyr;
- 45 o bynciau Safon Uwch, prentisiaethau a chyrsiau galwedigaethol a lefel uwch ar gael;
- Cynhaliwyd arfer cynllunio cwricwlwm;
- Gweithdrefnau blynyddol ar waith er mwyn adolygu a gwerthuso'r cwricwlwm;
- Cesglir gwybodaeth o ffynonellau amrywiol a defnyddir gwybodaeth am y farchnad;
- Cynnwys rhanddeiliaid a chyflogwyr;
- Ychwanegiadau newydd i'r cyrsiau sydd ar gael - gosod briciau, gwaith saer, seibrddiogelwch, cynnal a chadw cerbydau hybrid etc;
- Dyddiad dechrau gwahanol ar gyfer cyrsiau – Medi/Ionawr;
- Cysylltiadau presennol â phrifysgolion, cyflogwyr a diwydiannau lleol;
- Angen ehangu a gwella cysylltiadau â busnesau a chyflogwyr yn yr ardal:
- Cysylltiadau da â Choleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Sir Gâr;
- Datblygu cysylltiadau a darparu cyrsiau yn Ysgol Gyfun Treforys yn ddiweddar, a'r potensial i'w gwneud mewn ysgolion eraill;
- Hapus i rannu a chyfnewid gwybodaeth gyda'r cyngor/ysgolion etc;

- Problemau parhaus o ran lefelau llythrennedd a rhifedd pobl ifanc sy'n mynd i'r coleg.

Diolchodd y cadeirydd i Mr Jones am ei gyflwyniad addysgiadol.

**50 Cysoni darpariaeth 14-19 oed - Data ar gyrsiau sydd ar gael yn Abertawe.**

Cyflwynodd Nick Williams adroddiad a oedd yn crynhoi manylion am nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau'r cyrsiau STEM amrywiol yn ysgolion Abertawe ar lefel TGAU a Safon Uwch.

Awgrymodd Mark Jones y byddai'n gallu darparu'r ystadegau ar gyfer y coleg mewn perthynas â'i ddarpariaeth Safon Uwch.

Gofynnodd yr aelodau am fwy o wybodaeth ac ystadegau am y pynciau nad ydynt yn rhai STEM.

**Penderfynwyd** cyflwyno ffigurau ychwanegol, fel a amlinellwyd uchod, yn y cyfarfod nesaf.

**51 Partnerieath Sgiliau Abertawe.**

Amlinellodd a chyflwynodd Nick Williams y cylch gorchwyl drafft ar gyfer y grŵp partneriaeth newydd.

Amlygwyd ffurfio'r grŵp fel maes i'w ddatblygu yn adroddiad bargen ddinesig y pwyllgor y llynedd fel cyfrwng cyfathrebu rhwng yr awdurdod a'r RLSP.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cylch gorchwyl drafft ac i'r Prif Swyddog Addysg adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed gan y grŵp newydd yn hwyrach yn y flwyddyn

**52 Diweddariad prentisiaeth.**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn am y ffigurau diweddaraf o ran nifer y prentisiaid a gyflogwyd gan yr awdurdod ar hyn o bryd.

Dylai'r wybodaeth fod ar gael yn y cyfarfod nesaf a gallai gael ei chysylltu â'r wybodaeth a fydd yn cael ei darparu gan Coleg Gŵyr Abertawe.

**53 Ymchwil gan Awdurdodau Eraill ar Bynciau STEM (Y Diweddaraf ar lafar gan aelodau)**

Adroddodd y Cynghorydd L R Jones am nifer o syniadau gan awdurdodau yn Lloegr yr oedd wedi ymchwilio iddynt, megis "gŵyl ddysgu", "clwb codio", a "chynllun mentora gyda busnesau lleol".

Nododd ei fod yn aros am ohebiaeth ysgrifenedig am y materion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M Durke at brosiect TG a gwblhawyd gan PCYDDS, a oedd yn gweithio gydag ysgolion ac a oedd yn cynnwys lego a'r thema "dysgu trwy fwynhau".

Amlinellodd Mark Jones y digwyddiad gwyddoniaeth/peirianneg a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y coleg a'r prosiectau amrywiol y mae'r coleg yn rhan ohonynt gydag ysgolion lleol. Nododd y byddai'n trafod y rhain gyda'r Prif Swyddog Addysg.

**54 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

Amlinellodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer y Pwyllgor a gweddill blwyddyn ddinesig 2017/2018.

Amlinellwyd yr angen i ddarparu mwy o ddata ar y cyrsiau TGAU/Safon Uwch sydd ar gael yn y cyfarfod nesaf.

Byddai angen adolygiad o waith y Pwyllgor dros y flwyddyn ddinesig a chynllunio ar gyfer pynciau'r flwyddyn nesaf.

**Penderfynwyd** nodi'r cynllun gwaith fel a amlinellwyd, yn amodol ar sylwadau'r uchod.

The meeting ended at 5.40 pm

**Chair**